Summer 2026

# Community Newsletter

Eryri Visual Impact Provision (VIP) project



## Project update

**Welcome to our latest project newsletter. We've packed in lots of activity and progress over the last few months, both above and underground and are keen to keep you up to date.**

We are making great progress on all aspects of the project with the tunnel now over 70% complete. However, 2026 has also presented some challenges in both the tunnelling operation and the construction of the reception shaft at Llandecwyn. It has been inspiring to see how our team has overcome these challenges using their vast engineering and construction expertise.

Read on to find out all about our progress, as well as our latest volunteering days at Eryri National Park, our plans for engaging with the next generation, the guests we have welcomed for site visits, and more.



**Steve Ellison**
Senior Project Manager, Eryri VIP, National Grid

I hope you find this newsletter useful – please do get in touch if there's anything you'd like us to feature in future editions.

## Construction progress at a glance

**Our Tunnel Boring Machine (TBM), Buddug, is still tunnelling away and our project team are working hard to excavate the shaft at the Llandecwyn site where we will lift her out once she has completed her journey.**

Buddug is on track to complete the 3.4km-long tunnel under the Dwyryd Estuary by late summer. We'll be lifting Buddug out of the ground at the end of this year when the Llandecwyn shaft has been fully excavated.

After this, we can install the cables in the tunnel and start construction on the headhouses at each end of the tunnel, in Llandecwyn and Garth.



**88% of the shaft excavated**

**78% of the tunnel completed ✓**



nationalgrid

# Just keep tunnelling

**Buddug is now 78% of the way through her journey, having recently completed the 2,000th ring of the total 2,771 needed to create the tunnel where we'll install the new underground cables.**

During the tunnelling process, the team have encountered a range of materials, from large boulders to quartz and pyrite – nicknamed "fool's gold" as it's often mistaken for gold.

Currently, Buddug is tunnelling through the mudstone of the Ffestiniog Flats, having successfully traversed a very geologically challenging section with alternating pockets of sand and mudstone.

To overcome this challenge, our engineers reviewed and closely managed the excavation parameters, as well as injecting bentonite into the sand bands to solidify them and allow Buddug to keep making progress.



Buddug uses a range of cutting tools, including discs, knives and scrapers. We're keeping a close eye on these tools for any signs of tool wear to make sure Buddug can work at full capacity.

# Getting to the bottom of it

**We're making good progress with constructing the reception shaft at our Llandecwyn site. So far, we have excavated over 49m out of a total 57m for the shaft.**


This progress did not come without its challenges, especially when we reached a layer of stronger rock. Due to the nature and structure of this rock, we investigated alternative methods of excavation, including a procedure called Drill and Blast.

The project team carried out a series of successful tests in December 2025 using this method and are now continuing with a series of blasting activity. Using this method, the shaft is progressing well despite the challenging circumstances.

The material now being excavated is from the Cambrian age and hasn't seen daylight for approximately 500 million years!

We'd like to express our sincere thanks to our neighbours and the local community for their understanding while we've been working some extended hours and bank holidays to progress construction at the Llandecwyn project site.

Reception shaft at 15m excavation depth



Reception shaft at 49m excavation depth





# Volunteering at Eryri National Park

**Members of the Eryri VIP project team are rolling up their sleeves and fast becoming real green fingers as they continue their commitment to ongoing volunteering work with Eryri National Park.**

Following a series of successful volunteering activities in 2025, the project team signed up to a monthly programme, including tree planting, vegetation clearance and trail maintenance.

Earlier this year, the team put on their gardening gloves and got to work potting plants at the Eryri National Park tree nursery at Plas Tan y Bwlch.

With the arrival of warm weather and the start of the short tree planting season, they returned to help plant nearly 400 trees in the Cwm Prysor area in Trawsfynydd. These trees will form part of a new woodland in the national park which will be of great benefit to local wildlife and help to mitigate against climate change.





# Community Grant Programme

**The Community Grant Programme is aimed at community organisations and charities in areas affected by National Grid's operations and construction activities. Local non-profit organisations in areas impacted by the Eryri VIP project can apply for grants of up to £20,000.**

We're delighted that projects from the area were recently awarded funds.

- **South Snowdonia Search and Rescue Team** work with North Wales Police to help locate missing or vulnerable people in the south of the Eryri National Park. The team was awarded just over **£16,000** to purchase a new stretcher and stretcher wheel for rescue operations in difficult terrain, digital radios for use on callouts and lightweight team jackets. This equipment will help the team to keep the local community and those visiting the area safe.
- **CPD Penrhyndeudraeth FC** was awarded **£15,838** to help install new fencing around the edge of the club playing area. This has improved the safety and accessibility of the club's facilities for local residents, visitors and community groups to enjoy.





The next funding window for the Community Grant Programme opens in July 2026. For more information about eligibility criteria and how to apply, visit:
**nationalgrid.com/responsibility/community/community-grant-programme**

# Investing in the next generation

**It's important to us that we actively engage with young talent and raise awareness and understanding of science, technology, engineering and mathematics (STEM) careers.**

We have previously delivered STEM workshops at local primary schools and also held a naming competition for our Tunnel Boring Machine.

This year, we're excited to be planning a further STEM and sustainability outreach programme for local schools. We will share more information in the next edition of the newsletter.

### Encore une fois Coleg Menai

We recently said "bienvenue" to French engineering students who were on an exchange trip to Coleg Menai's Llangefni campus.

After a presentation about the Eryri VIP project at our Project Information Centre, the students enjoyed a walking tour around the Minffordd site, where they got to learn more about the day-to-day operations of a large-scale engineering project firsthand.

This was Coleg Menai's second visit to the site and we'll continue to engage with the college as we plan the next phases of our ongoing educational outreach.



# Sharing knowledge and expertise

**We have enjoyed sharing knowledge and experience with local engineers and interest groups during organised visits to our Minffordd site.**

Some of the latest visitors to our site were:

- **Cyngor Gwynedd's** Highways, Engineering and Ymgynghoriaeth Gwynedd Consultancy (YGC) department.
- The team from the **Nuclear Restoration Services** (NRS) Trawsfynydd Decommissioning Site, who were interested to learn about safely managing high hazard activities on site for their decommissioning operations.
- Geology enthusiasts from **U3A Geology Chapter**, who were keen to learn about our findings during construction.




# Community Liaison Group

Our January meeting of the Community Liaison Group was once again very well attended and provided a great opportunity for us to explain our recent activities and latest programme.

We're sincerely grateful to all the local stakeholders that continue to attend our meetings, which take place twice a year and are a valuable source of guidance and feedback for us. Our next meeting is scheduled for July 2026.

## Get in touch

We will be providing updates throughout construction to keep local people updated about our progress. We are always keen to hear from you if you have any questions or feedback.

Please get in touch by calling **0800 019 1898**

by writing to **Freepost VISUAL IMPACT PROVISION**

or by sending an email to **visualimpact@nationalgrid.com**

You can find out more about the project on our dedicated website: **nationalgrid.com/eryrivip**

Please recycle

Haf 2026

# Cylchlythyr Cymunedol

Prosiect Darpariaeth Effaith Weledol (VIP) Eryri



## Diweddariad ar y Prosiect

**Croeso i gylchlythyr diweddaraf ein prosiect. Mae llawer o bethau wedi digwydd ac wedi symud ymlaen dros y misoedd diwethaf, uwchben ac o dan y ddaear, ac rydyn ni'n awyddus i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi.**

Rydyn ni'n gwneud cynnydd gwych ar bob agwedd o'r prosiect gyda dros 70% o'r twnnel bellach wedi'i gwblhau. Fodd bynnag, rydyn ni hefyd wedi wynebu rhai heriau yn 2026 gyda'r gwaith twnelu ac adeiladu'r siafft dderbyn yn Llandecwyn. Mae wedi bod yn ysbrydoledig gweld sut mae ein tîm wedi goresgyn yr heriau hyn gan ddefnyddio eu harbenigedd helaeth yn y maes peirianneg ac adeiladu.

Darllenwch ymlaen i gael gwybod am ein cynnydd, yn ogystal â'n diwrnodau gwirfoddoli diweddaraf ym Mharc Cenedlaethol Eryri, ein cynlluniau ar gyfer ymgysylltu â'r genhedlaeth nesaf, y gwesteion rydyn ni wedi'u croesawu ar ymweliadau safle, a mwy.



**Steve Ellison**

Uwch Reolwr Prosiect, Darpariaeth Effaith Weledol Eryri, National Grid

Gobeithio y bydd y cylchlythyr hwn yn ddefnyddiol i chi, a chofiwch gysylltu os oes unrhyw beth yr hoffech i ni ei gynnwys mewn rhifynnau yn y dyfodol.

## Cipolwg ar sut mae'r gwaith adeiladu yn dod yn ei flaen

**Mae ein Peiriant Twnelu, Buddug, yn dal i fod wrthi'n brysur ac mae ein tîm prosiect yn gweithio'n galed i gloddio'r siafft ar safle Llandecwyn lle byddwn yn ei chodi ar ôl iddi orffen ei thaith.**

Mae Buddug ar y trywydd iawn i gwblhau'r twnnel 3.4km o hyd o dan Aber Afon Dwyryd erbyn diwedd yr haf. Byddwn yn codi Buddug o'r ddaear ddiwedd y flwyddyn hon pan fydd siafft Llandecwyn wedi cael ei chloddio'n llwyr.

Ar ôl hyn, gallwn osod y ceblau yn y twnnel a dechrau adeiladu'r pendai ar ddau ben y twnnel, yn Llandecwyn a Garth.



**88% o'r siafft wedi'i chloddio**

**78% o'r twnnel wedi'i gwblhau ✓**



nationalgrid

# Dal ati i dwnelu

**Mae Buddug bellach 78% o'r ffordd ar hyd ei thaith, ar ôl cwblhau'n ddiweddar gylch rhif 2,000 o'r 2,771 sydd eu hangen i greu'r twnnel lle byddwn yn gosod y ceblau tanddaearol newydd.**

Yn ystod y broses dwnelu, mae'r tîm wedi dod ar draws amrywiaeth o ddeunyddiau, o glogfeini mawr i gwarts a phyrit – sy'n cael ei alw'n "aur ffyliaid" gan ei fod yn aml yn cael ei gamgymryd am aur.

Ar hyn o bryd, mae Buddug yn twnelu drwy garreg laid Gwastadeddau Ffestiniog, ar ôl llwyddo i groesi rhan ddaearegol heriol iawn gyda phocedi o dywod a cherrig llaid am yn ail.

Er mwyn goresgyn yr her hon, ailedrychodd ein peirianwyr ar baramedrau'r cloddio a'u rheoli'n agos, yn ogystal â chwistrellu bentonit i'r bandiau tywod i'w sefydlogi a chaniatáu i Buddug fwrw yn ei blaen.




Mae Buddug yn defnyddio amrywiaeth o offer torri, gan gynnwys disgiau, cyllyll a chrafwyr. Rydyn ni'n cadw llygad barcud ar yr offer am unrhyw arwyddion o draul i wneud yn siŵr bod Buddug yn gallu gweithio yn ôl capasiti llawn.

# Mynd at waelod y mater

**Rydyn ni'n gwneud cynnydd da o ran adeiladu'r siafft dderbyn ar ein safle yn Llandecwyn. Hyd yma, rydyn ni wedi cloddio dros 49m allan o gyfanswm o 57m ar gyfer y siafft.**

Doedd hyn ddim yn broses gwbl hawdd chwaith, yn enwedig pan gyrhaeddon ni haenen o graig gryfach. Oherwydd natur a strwythur y graig hon, fe wnaethon ni ymchwilio i ddulliau cloddio eraill, gan gynnwys dull o'r enw Drilio a Blastio.

Cynhaliodd tîm y prosiect gyfres o brofion llwyddiannus ym mis Rhagfyr 2025 gan ddefnyddio'r dull hwn ac maen nhw bellach yn parhau â chyfres o weithgareddau ffrwydro. Er gwaethaf yr amgylchiadau heriol, mae'r siafft yn datblygu'n dda, gan ein bod ni'n defnyddio'r dull hwn.

Dydy'r deunydd sydd wrthi'n cael ei gloddio ddim wedi gweld golau dydd ers tua 500 miliwn o flynyddoedd, ac mae'n dod o'r cyfnod Cambriaidd!

Hoffem ddiolch o galon i'n cymdogion a'r gymuned leol am eu dealltwriaeth wrth i ni weithio oriau estynedig ac ar wyliau banc i fwrw ymlaen â'r gwaith adeiladu ar safle prosiect Llandecwyn.

Siafft dderbyn ar ddyfnder cloddio o 15m



Siafft dderbyn ar ddyfnder cloddio o 49m





# Gwirfoddoli ym Mharc Cenedlaethol Eryri

**Mae aelodau o dîm prosiect Darpariaeth Effaith Weledol Eryri yn torchi eu llewys ac yn prysur ddod yn arddwyr o fri wrth iddyn nhw barhau â'u hymrwymiad i wirfoddoli gyda Pharc Cenedlaethol Eryri.**

Yn dilyn cyfres o weithgareddau gwirfoddoli llwyddiannus yn 2025, ymrwymodd tîm y prosiect i raglen fisol, gan gynnwys plannu coed, clirio llystyfiant a chynnal a chadw llwybrau.

Yn gynharach eleni, rhoddodd y tîm eu menig garddio am eu dwylo a mynd ati i blannu planhigion mewn potiau ym meithrinfa goed Parc Cenedlaethol Eryri ym Mhlas Tan y Bwlch.

Gyda dyfodiad y tywydd cynnes a dechrau'r tymor plannu coed byr, fe aethon nhw'n ôl a helpu i blannu bron i 400 o goed yn ardal Cwm Prysor yn Nhrawsfynydd. Bydd y coed hyn yn ffurfio rhan o goetir newydd yn y parc cenedlaethol a fydd o fudd mawr i fywyd gwyllt lleol ac yn helpu i liniaru'r newid yn yr hinsawdd.





# Rhaglen Grantiau Cymunedol

**Mae'r Rhaglen Grantiau Cymunedol wedi ei hanelu at elusennau a mudiadau cymunedol mewn ardaloedd lle mae gweithgareddau adeiladu a gweithredoedd National Grid yn effeithio arnyn nhw. Gall sefydliadau nid-er-elw lleol mewn ardaloedd y mae prosiect Darpariaeth Effaith Weledol Eryri yn effeithio arnyn nhw wneud cais am grantiau o hyd at £20,000.**

Rydyn ni'n falch bod prosiectau o'r ardal wedi cael cyllid yn ddiweddar.

- Mae **Tîm Chwilio ac Achub De Eryri** yn gweithio gyda Heddlu Gogledd Cymru i helpu i ddod o hyd i bobl sydd ar goll neu sy'n agored i niwed yn ne Parc Cenedlaethol Eryri. Dyfarnwyd ychydig dros **£16,000** i'r tîm i brynu cludwely ac olwynion cludwely newydd ar gyfer gweithrediadau achub ar dir anodd, radios digidol i'w defnyddio wrth ymateb i alwadau a siacedi ysgafn i'r tîm. Bydd yr offer yn helpu'r tîm i gadw'r gymuned leol a'r rheini sy'n ymweld â'r ardal yn ddiogel.
- Dyfarnwyd **£15,838** i **CPD Penrhyndeudraeth** i helpu i osod ffensys newydd o amgylch ardal chwarae'r clwb. Mae hyn wedi gwella diogelwch a hygyrchedd cyfleusterau'r clwb i drigolion lleol, ymwelwyr a grwpiau cymunedol eu mwynhau.





Bydd y cyfnod cyllido nesaf ar gyfer y Rhaglen Grantiau Cymunedol yn agor ym mis Gorffennaf 2026. I gael rhagor o wybodaeth am y meini prawf cymhwysedd a sut mae gwneud cais, ewch i: **https://www.nationalgrid.com/responsibility/community/community-grant-programme-welsh**

# Buddsoddi yn y genhedlaeth nesaf

**Mae'n bwysig i ni ein bod yn mynd ati i ymgysylltu â thalent ifanc ac yn codi ymwybyddiaeth ac yn gwella dealltwriaeth o yrfaoedd gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg (STEM).**

Rydyn ni wedi cynnal gweithdai STEM mewn ysgolion cynradd lleol yn y gorffennol ac rydyn ni hefyd wedi cynnal cystadleuaeth enwi ein Peiriant Twnelu.

Eleni, rydyn ni'n edrych ymlaen at gynllunio rhaglen gwaith maes STEM a chynaliadwyedd arall ar gyfer ysgolion lleol. Byddwn yn rhannu rhagor o wybodaeth yn rhifyn nesaf y cylchlythyr.

### Encore une fois Coleg Menai

Yn ddiweddar, fe wnaethom ddweud "bienvenue" wrth fyfyrwyr peirianneg o Ffrainc a oedd ar daith gyfnewid i gampws Llangefni Coleg Menai.

Yn dilyn cyflwyniad ar brosiect Darpariaeth Effaith Weledol Eryri yng Nghanolfan Wybodaeth y Prosiect, aeth y myfyrwyr ar daith gerdded o amgylch safle Minffordd, lle cawson nhw gyfle i ddysgu mwy am weithrediadau'r prosiect peirianneg mawr o ddydd i ddydd.

Hwn oedd ail ymweliad Coleg Menai â'r safle a byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r coleg wrth i ni gynllunio camau nesaf ein gwaith maes addysgol parhaus.



## Rhannu gwybodaeth ac arbenigedd

**Rydyn ni wedi mwynhau rhannu gwybodaeth a phrofiad â pheirianwyr a grwpiau lleol yn ystod ymweliadau wedi'u trefnu â'n safle ym Minffordd.**

Dyma rai o'r ymwelwyr diweddaraf â'n safle:

- Adran Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth Gwynedd (YGC) **Cyngor Gwynedd**.
- Y tîm o **Nuclear Restoration Services** Safle Datgomisiynu Trawsfynydd, a oedd â diddordeb mewn dysgu am reoli gweithgareddau peryglus iawn yn ddiogel ar y safle ar gyfer eu gweithrediadau datgomisiynu.
- Selogion daeareg o **Gangen Daeareg Prifysgol y Drydedd Oes** a oedd yn awyddus i ddysgu am ein canfyddiadau yn ystod y gwaith adeiladu.




# Grŵp Cyswllt Cymunedol

Unwaith eto, daeth nifer dda i gyfarfod y Grŵp Cyswllt Cymunedol ym mis Ionawr, ac roedd yn gyfle gwych i ni egluro ein gweithgareddau diweddar a'n rhaglen ddiweddaraf.

Rydyn ni'n hynod ddiolchgar i'r holl randdeiliaid lleol sy'n parhau i ddod i'n cyfarfodydd, sy'n cael eu cynnal ddwywaith y flwyddyn ac sy'n ffynhonnell werthfawr o arweiniad ac adborth i ni. Bydd ein cyfarfod nesaf ym mis Gorffennaf 2026.

## Cysylltwch â ni

Byddwn yn anfon gwybodaeth drwy gydol y cam adeiladu er mwyn rhoi gwybod i drigolion lleol am ein cynnydd. Rydym bob amser yn awyddus i glywed gennych gydag unrhyw gwestiynau neu adborth.

Cysylltwch â ni drwy ffonio **0800 019 1898**

drwy ysgrifennu at **Freepost VISUAL IMPACT PROVISION**

neu drwy anfon neges ebost at **visualimpact@nationalgrid.com**

Mae rhagor o wybodaeth am y prosiect ar ein gwefan:
**www.nationalgrid.com/eryrivip**

Ailgylchwch os gwelwch yn dda